Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 12/2021

Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2021

# Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
# Iwerddon Mawrth 2020

Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
Iwerddon Mawrth 2020
Awduron yr Adroddiad: Jonathan Young a Tanya Sharapova

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Stephens
Uwch Reolwr Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: David.stephens@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-893-3

# Croeso Cymru

## Adroddiad Cryno

## Astudiaeth Marchnad

Iwerddon

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **6**

Deall yr adroddiad hwn 6

Methodoleg 6

Diffiniad sampl 6

**2. Prif Ganfyddiadau** **7**

**3. Dylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr** **11**

Prif ddylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr 11

Bwriad i ymweld â'r DU 12

Rhesymau pam mae'r DU yn lle atyniadol i ymweld ag ef 14

Mathau o gyrchfannau gwyliau sy'n cael eu hystyried yn y DU 15

Mathau o dripiau sy'n cael eu hystyried yn y DU 17

Dylanwadau ar wyliau 18

**4. Ymweld â Chymru** **19**

Cynefindra a pherthynas â gwledydd dethol 19

Ystyriaeth o Gymru fesul segment a pherthynas â Chymru **Error! Bookmark not defined.**

Proffil y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau 22

Proffil ystyrwyr ar gyfer pob gwlad 24

Rhesymau dros beidio ag ystyried Cymru 25

**5. Ymweld â Chymru** **26**

Amseriad y trip a ragwelir i Gymru 26

Cam cynllunio'r trip nesaf i Gymru 28

Ble y bwriedir ymweld ag ef yng Nghymru 29

Ble arall y bwriedir ymweld ag ef yn y DU 30

Cyfansoddiad parti ar gyfer y trip nesaf i Gymru 30

Dull teithio a ragwelir i Gymru 31

Hyd y daith a ragwelir i Gymru 32

Ffynonellau gwybodaeth a ragwelir i gynllunio'r trip nesaf i Gymru 32

Sianeli archebu disgwyliedig ar gyfer y trip nesaf i Gymru 34

**6. Cyswllt gyda Croeso Cymru** **35**

Cyfathrebu diweddar a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar (heb brocio) **Error! Bookmark not defined.**

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd) 36

Ymgysylltu â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf 36

**7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau** **38**

**8. Atodiad** **39**

# 1. Cyflwyniad

## Deall yr adroddiad hwn

1.1 Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, mae Croeso Cymru yn gyfrifol am ddefnyddio ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei marchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil yn edrych yn fras ar:

- Bwriadau gwyliau cyffredinol a gwyliau byr ar gyfer y 12 mis sydd i ddod.
- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis gwyliau a gwyliau byr, yn gyffredinol ac i/o fewn y DU.
- Mathau o gyrchfannau a phrofiadau a ffafrir ar gyfer gwyliau a gwyliau byr yn y DU.
- Ymwybyddiaeth, canfyddiadau ac ystyriaeth o gyrchfannau yn y DU ar gyfer gwyliau neu wyliau byr.
- Canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr.
- Ffynonellau cynllunio ac archebu ar gyfer tripiau i Gymru.
- Ymgysylltu â sianeli gwybodaeth Croeso Cymru. Proffilio a demograffeg.

1.2 Cynhelir yr ymchwil ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn.

1.3 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau cryno rheolaidd a gyhoeddir yn dilyn pob ton o'r astudiaeth. Bydd yr adroddiadau cryno yn amlinellu canfyddiadau allweddol pob ton.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau **marchnad Iwerddon**.

## Methodoleg

1.5 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau drwy fwrdd gwaith neu ddyfais symudol.

1.6 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng **27ain Chwefror a 9fed Mawrth 2020**, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cwblhawyd 600 o ymatebion.

1.7 Ar gyfartaledd, cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau.

## Diffiniad sampl

1.8 I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn gynrychioliadol o boblogaeth Gweriniaeth Iwerddon yn genedlaethol yn ôl oedran, rhyw a rhanbarth
- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid bod yn debygol iawn/eithaf tebygol o gymryd gwyliau neu wyliau byr mewn llety y telir amdano yn y DU yn ystod y blynyddoedd nesaf.

# 2. Prif Ganfyddiadau




## Perthynas â gwledydd yn y DU

| Gogledd Iwerddon | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 67% |
| Cynefindra | 44% |
| Yn ystyried ymweld | 44% |

| Cymru | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 47% |
| Cynefindra | 21% |
| Yn ystyried ymweld | 33% |




| Yr Alban | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 53% |
| Cynefindra | 25% |
| Yn ystyried ymweld | 52% |

| Lloegr | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 85% |
| Cynefindra | 52% |
| Yn ystyried ymweld | 68% |

## Demograffeg marchnad Iwerddon sy'n ystyried taith i Gymru

### Segmentau




### Dadansoddiad oedran




### Tarddiad Rhanbarth




### Plant o dan 16 oed ar yr aelwyd

36%

## Y 5 prif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru

**35%**
Dydw i ddim yn gwybod digon am yr hyn sydd i'w wneud

**35%**
Mae ar fy rhestr ond rydw i eisiau gweld lleoedd eraill yn gyntaf

**32%**
Mae lleoedd eraill yn y DU ychydig yn fwy deniadol

**26%**
Mae'n haws teithio'n uniongyrchol i rannau eraill o'r DU

**25%**
Mae cynnig arbennig neu becyn yn rhywle arall yn y DU wedi dylanwadu ar fy mhenderfyniad

### Cam cynllunio'r trip nesaf i Gymru (% ystyrwyr i Gymru)




- Heb archebu llety ac yn ystyried lleoedd eraill
- Heb archebu llety ond yn bendant am ymweld â Chymru
- Wedi archebu llety ac yn bendant am ymweld

### Y 3 prif le y bwriedir ymweld â nhw

**55%** Caerdydd

**40%** Mynyddoedd ac Arfordir Eryri

**30%** Bae Abertawe, y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Dyffryn Castell-nedd

### Hyd trip cynlluniedig i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru'

**39%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson)

**61%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson)

**5** nights
Hyd cyfartalog trip cynlluniedig i Gymru (nosweithiau)

**Y prif ffynonellau gwybodaeth y mae marchnad Iwerddon yn eu defnyddio i gynllunio tripiau (%)**

| 76% | 63% | 43% | 34% |
|---|---|---|---|
| Gwefannau/apiau | Argymhelliad personol | E-bost neu gyfryngau cymdeithasol | Gwybodaeth brintiedig |

## Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar




**20%**

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

**34%**

Yn nodi nad ydyn nhw erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr i Gymru ond yr hoffen nhw wneud hynny.

**Y dull teithio a ragwelir i Gymru**

- **48%** Ar y môr – gyda'u car eu hunain
- **31%** Mewn awyren – yn uniongyrchol i Gymru
- **16%** Mewn awyren – i faes awyr arall yn y DU

# 3. Dyfanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

## Prif ddylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

3.1 'Arian personol' yw'r ffactor sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniadau gwyliau a gwyliau byr marchnad Iwerddon yn 2020 (88% yn nodi bod ganddo lawer/ychydig o ddylanwad), ac yna 'pryderon ynghylch diogelwch' (71%). Yn gysylltiedig ag arian personol, mae 'cyfraddau cyfnewid' a 'chyflwr yr economi' hefyd yn bwysig.

3.2 Er bod 'newid yn yr hinsawdd' a 'Brexit' yn llai o ddylanwad na'r ffactorau eraill, mae ganddyn nhw o leiaf rywfaint o ddylanwad i bron hanner marchnad Iwerddon (pob un â llawer/ychydig o ddylanwad i hanner y farchnad).

3.3 Ni chrybwyllwyd Coronafeirws yn ddigymell gan ymatebwyr ond mae hyn yn debygol o ganlyniad i amseriad yr arolwg cyn i'r feirws waethygu ar raddfa fyd-eang.



## Bwriad i ymweld â'r DU

3.4 Mae'r rhan fwyaf o farchnad Iwerddon yn disgwyl mynd ar nifer tebyg o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf fel y gwnaethant yn y 12 mis cyn cwblhau'r arolwg. Nododd ychydig dros un o bob pump (22%) eu bod yn rhagweld cymryd mwy o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis dilynol, yr union gyfran a ddywedodd eu bod yn rhagweld cymryd llai. Mae cyfran uwch o farchnad Iwerddon yn bwriadu cymryd mwy o wyliau domestig yn Iwerddon neu wyliau i dir mawr Ewrop yn 2020. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai tripiau i weddill y byd yn gostwng.




3.5 Rydym wedi adolygu canlyniadau gan y gwahanol segmentau targed a nodwyd gan Visit Britain a nodir gwahaniaethau allweddol yn yr adroddiad. I gael rhagor o fanylion am y segmentau hyn, ewch i https://www.visitbritain.org/understanding-our-customer-segments

3.6 Ar draws y segmentau targed, Ceiswyr Cyffro yw'r rhai mwyaf tebygol o gymryd mwy o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf (31% o'i gymharu â 22% ar gyfartaledd). Mae'r segmentau eraill yn llawer agosach at y cyfartaledd felly maent yr un mor debygol o ddewis mwy o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf.



3.7 Gan gyfeirio'n benodol at wyliau yn y DU, nodwyd mai 'cyfraddau cyfnewid' oedd y prif rwystr i ymweld â marchnad Iwerddon (43% yn nodi hyn), ac yna 'amgylchiadau personol' (38%) ac 'ansicrwydd ynghylch Brexit' (33%). Roedd 'tarfu ar deithio o ganlyniad i Brexit' hefyd yn rheswm cryf, 26% yn datgan hyn.

3.8 Gyda'i gilydd, ystyrir bod rhesymau sy'n benodol i Brexit yn rhwystr i 44% o farchnad Iwerddon. Mae cost trip gwyliau i'r DU ac anibynadwyedd y tywydd hefyd yn bryderon.



## Rhesymau pam mae’r DU yn lle mor atyniadol i ymweld ag ef

3.9 Ffactorau sy'n ymwneud â 'chyfleustra' a 'cynefindra' sy'n dominyddu'r 10 prif reswm pam yr ystyrir bod y DU yn lle deniadol i ymweld ag ef ar gyfer marchnad Iwerddon. Mae cysylltiadau hedfan (59%), teulu/ffrindiau yn byw yno (52%), rhwyddineb teithio i'r DU (46%) a rhwyddineb teithio yn y DU (30%) i gyd yn cael eu crybwyll. Roedd o leiaf un o'r rhain yn ymateb ar gyfer 90% o farchnad Iwerddon. Er hynny, mae apêl cyrchfannau hefyd yn ddylanwad cryf – mae 51% yn nodi bod 'llawer o wahanol leoedd i ymweld â nhw' a 30% bod 'llawer o weithgareddau ar gael'. Mae'n werth nodi bod marchnad Iwerddon wedi cynnwys mwy o resymau pam mae'r DU yn apelio na rhwystrau i ymweld.

3.10 Mae rhai gwahaniaethau ar draws segmentau’r rhai sy’n mynd i weld golygfeydd. Archwiliwyr sydd fwyaf tebygol o weld y DU yn apelio oherwydd bod ganddynt ffrindiau a theulu yno, tra bod y Rhai sy’n mynd i weld golygfeydd yn fwyaf tebygol o gael eu tynnu gan hwylustod gwneud trefniadau teithio. Yn y cyfamser, Ceiswyr Cyffro sydd â’r diddordeb lleiaf mewn cael 'llawer o wahanol leoedd i ymweld â nhw' a nhw sydd â’r diddordeb mwyaf o'r holl segmentau mewn cyrchfan sydd â 'llawer o weithgareddau ar gael'. Mae hyn yn awgrymu cyfle i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan sy'n llawn gweithgarwch i'r segment hon.



## Mathau o gyrchfannau gwyliau sy’n cael eu hystyried yn y DU

3.11 Marchnad Iwerddon sydd fwyaf tebygol o ystyried o ddifrif mynd ar drip i ardaloedd trefol y DU am wyliau neu wyliau byr yn ystod y blynyddoedd nesaf – 'dinasoedd a threfi mawr' yw’r rhai mwyaf deniadol (73% yn nodi hyn), ac yna 'trefi hanesyddol a threftadaeth' (63%). Mae apêl cyrchfannau trefol yn arbennig o uwch na marchnad ddomestig y DU. Mae'n werth nodi mai Cymru yw'r wlad sydd leiaf tebygol o fod yn gysylltiedig â phob un o'r mathau hyn o gyrchfannau.

3.12 'Cefn gwlad a phentrefi golygfaol' yw'r rhai mwyaf deniadol nesaf (54%), ac yna 'arfordir golygfaol a harbwrs' (50%). Roedd traean (33%) hefyd â diddordeb mewn 'gwyliau teithiol', rhywbeth sy'n apelio'n arbennig at Anturiaethwyr (36%) ac Archwiliwyr (35%). Yn nodedig, mae lefel is o ddiddordeb mewn cyrchfannau glan môr traddodiadol ymhlith marchnad Iwerddon.

3.13 Mae lleiafrif sylweddol yn dangos diddordeb mewn Tiroedd gwyllt neu natur (26%). Yn nodedig, dim ond yr Alban sy'n fwy tebygol na Chymru o gael ei gweld fel lle gyda'r math hwn o gyrchfan. O'r rhai a welodd hysbysebion teledu presennol Croeso Cymru, roedd cysylltiadau â Chymru yn y maes hwn yn sylweddol uwch nag ymhlith y rhai na welodd yr hysbysebion.

### Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyriwyd ar gyfer trip i’r DU (%)



3.14 Ymhlith segmentau, mae Anturiaethwyr yn dangos diddordeb mewn ystod gymharol eang o fathau o gyrchfannau, gan awgrymu eu bod yn mwynhau amrywiaeth ac yn agored i roi cynnig ar y gwahanol bethau sydd gan y DU i'w cynnig. I'r gwrthwyneb, mae Archwiliwyr yn llai tebygol o ystyried dinasoedd a threfi mawr. Yn y cyfamser, mae'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd, Ceiswyr Cyffro ac Ymddiddorwyr Diwylliant yn cael eu tynnu fwyfwy i ddinasoedd a threfi mawr nag unrhyw fathau eraill o gyrchfannau.

**Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyriwyd ar gyfer trip i'r DU fesul segment**

*(CB1) (Sylfaen: Anturwyr n=124; Ceiswyr Cyffro n=114; Archwilwyr =149; Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd n=122; Ymddiddorwyr Diwylliant n=91)*

| | ANTURWYR | CEISWYR CYFFRO | ARCHWILWYR | RHAI SY'N MYND I WELD GOLYGFEYDD | YMDDIDDORWYR DIWYLLIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefi hanesyddol a threftadaeth** | 64% | 82% | 66% | 85% | 73% |
| **Dinasoedd a threfi mawr** | 68% | 56% | 68% | 61% | 59% |
| **Arfordir golygfaol a harbwrs** | 65% | 46% | 56% | 52% | 48% |
| **Cefn Gwlad a phentrefi golygfaol** | 57% | 43% | 52% | 47% | 52% |
| **Gwyliau teithiol** | 36% | 34% | 35% | 29% | 26% |
| **Antur mynydd** | 40% | 41% | 27% | 11% | 24% |
| **Cyrchfannau glan môr traddodiadol** | 24% | 31% | 28% | 25% | 34% |
| **Pentref/canolfan gwyliau** | 26% | 39% | 19% | 25% | 35% |
| **Tiroedd gwyllt a natur** | 33% | 27% | 30% | 13% | 24% |
| **Gwesty cyrchfan fawr** | 20% | 34% | 11% | 24% | 26% |

## Mathau o brofiadau sy'n cael eu hystyried yn y DU

3.15 Mae marchnad Iwerddon yn ystyried amrywiaeth o brofiadau ar wyliau neu wyliau byr yn y DU, a'r mwyaf poblogaidd yw 'ymweld ag atyniadau teuluol' (63%), 'ymweld â safleoedd treftadaeth ac atyniadau' (61%) a 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol' (56%).

3.16 Cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd (32%) tra bod rhai o'r diddordebau isaf mewn chwaraeon dŵr (11%) seiclo (10%) a golff (9%).

3.17 Er nad yw'n uchel yn unigol, mae gweithgareddau sy'n cyfeirio'n benodol at ymarfer corff (cerdded, heicio, crwydro, seiclo, chwaraeon dŵr, golff a gweithgareddau antur) o ddiddordeb i 56% o'r farchnad.

3.18 Gyda dros 40% â diddordeb mewn archwilio ardaloedd golygfaol mewn car a thraean â diddordeb mewn gwyliau teithiol, efallai y bydd cyfle da i hyrwyddo Llwybrau Ffordd Cymru i'r gynulleidfa hon.



## Dylanwadau ar wyliau

3.19 Yn gysylltiedig â'u hoff fathau o gyrchfannau a phrofiadau, 'tirnodau ac atyniadau enwog' (53%) a 'chyrchfan sy'n gyfoethog o ran hanes a threftadaeth' (45%) yw'r ffactorau mwyaf dylanwadol pan fydd ymwelwyr o Iwerddon yn dewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU (67% yn dewis o leiaf un o'r ddau reswm hyn). Mae 'Rhywle y gallwch ymweld ag ef bob adeg o'r flwyddyn' (44%), 'golygfeydd a thirweddau anhygoel' (43%) a 'llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud' (43%) hefyd yn ddylanwadol.

3.20 Mae gwerth am arian yn bwysig ac o ystyried amlygrwydd 'cyfraddau cyfnewid' fel rhwystr i ymweld, a 'chyllid personol' fel sbardun i ddewis gwyliau, mae gwerth tripiau i Gymru yn bwynt allweddol i'w hyrwyddo. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr awydd am lety a bwyd a diod o safon. Mae gwerth am arian yn bwysicach i farchnad Iwerddon o'i gymharu â'r farchnad Almaenaidd (29%).

3.21 Mae ymwelwyr o Iwerddon yn gwerthfawrogi lle gyda hanes a threftadaeth gyfoethog yn fwy nag ymwelwyr Almaenaidd, sy'n graddio golygfeydd a thirweddau anhygoel yn fwy uchel.



# 4. Ystyriaeth o Gymru

## Cynefindra a pherthynas â gwledydd dethol

4.1 Mae marchnad Iwerddon yn llai cyfarwydd â Chymru nag y maent gydag unrhyw un o'r gwledydd eraill yn y DU, 21% yn dweud eu bod yn adnabod Cymru'n dda iawn/eithaf da. Mae cynefindra ar ei uchaf gyda Lloegr (52%) a Gogledd Iwerddon (44%).




4.2 Mae gan gyfran sylweddol marchnad Iwerddon berthynas flaenorol â Chymru, gyda 28% wedi ymweld â Chymru'n flaenorol a thros un o bob deg â theulu neu ffrindiau yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle i fanteisio ar y cydberthnasau hyn yn ogystal â chysylltiadau drwy astudio, digwyddiadau a sianeli gwaith i annog mwy o ymweliadau gwyliau yn y dyfodol.



4.3 Yn gyffredinol, mae cynefindra'n cydberthyn ag ymweliadau, mae marchnad Iwerddon yn llai tebygol o fod wedi ymweld â Chymru nag unrhyw wlad arall, er mai dim ond ychydig yn is na'r Alban y mae ymweliad blaenorol. Mae tua 16% yn ymwelwyr amlach â Chymru o'i gymharu â 23% ar gyfer yr Alban. Yn gadarnhaol, mae tri chwarter marchnad Iwerddon (73%) yn agored i ymweld â Chymru yn y dyfodol – mae tua thraean (34%) heb ymweld o gwbl ond hoffent wneud hynny, ffynhonnell bosibl ar gyfer ymwelwyr newydd.



4.4 Wrth edrych ar draws segmentau, Anturiaethwyr yw'r segment o Iwerddon sy'n fwyaf tebygol o fod yn ymwelwyr mynych ac yn agored i ymweld â Chymru yn y dyfodol (80% yn agored i hyn), ac yna Archwiliwyr (75%) ac Ymddiddorwyr Diwylliant (75%). Y Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yw'r segment sydd leiaf agored i ymweld â Chymru, gyda 26% yn dweud eu bod yn annhebygol o ymweld yn y dyfodol.



### Ystyriaeth o gyrchfannau'r DU ar gyfer gwyliau neu wyliau byr

4.5 Er bod tri chwarter (73%) marchnad Iwerddon yn agored i ymweld â Chymru yn y dyfodol, mae ymwelwyr blaenorol yn fwyaf tebygol o fod yn ystyried ymweliad â Chymru o ddifrif.

4.6 Fodd bynnag, mae'n werth nodi, er gwaethaf lefelau tebyg o ymweliadau blaenorol, fod marchnad Iwerddon yn llawer mwy tebygol o fod yn ystyried ymweld â'r Alban o ddifrif yn ystod y 12 mis nesaf. Mae hyn yn dangos nad cynefindra yw'r unig sbardun i'w ystyried – gall ffactorau eraill chwarae rôl hefyd.

**Cyfran sy'n ystyried ymweld â phob gwlad o ddifrif (CC5a)**




## Proffil y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau

4.7 Mae dros hanner y rhai sy'n ystyried trip i Gymru naill ai'n Anturiaethwyr (26%) neu Archwiliwyr (hefyd 26%). Er mai Ymddiddorwyr Diwylliant yw'r ail

fwyaf tebygol o ystyried Cymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr, mae eu niferoedd cymharol isel ym marchnad Iwerddon yn golygu mai nhw yw'r ail segment lleiaf o fewn cynulleidfa 'ystyrwyr i Gymru'. Mae Ceiswyr Cyffro, sef y segment mwyaf tebygol o fod yn cynllunio gwyliau yn y DU yn 2020, yn gyfran isel o'r rhai sy'n ystyried ymweld â Chymru sy'n dangos lefel is o ddiddordeb gan y grŵp allweddol hwn.

4.8 Mae mwyafrif ystyrwyr i Gymru yn ddynion (55%), ac yn perthyn i ystod o grwpiau oedran cyfartal. Mae gan dros draean blant ar eu haelwyd, ac mae tua thraean (30%) yn dod o Munster.

**Cyfran y rhai sy'n ystyried ymweld â Chymru sydd ym mhob segment.**

**(Sylfaen: n=197)**



## Proffil ystyrwyr ar gyfer pob gwlad

4.9 Ar gyfer marchnad Iwerddon, o'i chymharu ag ystyried y DU gyfan, mae'n fwy tebygol y bydd ystyrwyr i Gymru yn:

- Anturwyr (26% o'i gymharu â 21% yn y farchnad)
- Gwryw (55% o'i gymharu â 50%)
- Pobl Hŷn, 55+ oed (36% o'i gymharu â 31%) neu 45-54 (24% o'i gymharu â 21%)
- O Munster (30% o'i gymharu â 25%)

4.10 I'r gwrthwyneb, mae ystyrwyr i Gymru yn llai tebygol na'r farchnad gyffredinol ar gyfer y DU o fod yn:

- Ceiswyr Cyffro (13% o'i gymharu â 19% yn y farchnad)
- Benyw (45% o'i gymharu â 50%)
- 16-34 oed (20% o'i gymharu â 29%)
- Connaught ac Ulster (19% o'i gymharu â 25%)

4.11 Yn nodedig, mae pob un o rannau eraill y DU yn mynegeio'n uwch na Chymru ar gyfer ystyrwyr sy'n Geiswyr Cyffro a phobl ifanc 16-34 oed.

| | | Pob un ystyriwr i'r DU | **Ystyrwyr i Gymru** | Ystyrwyr i Loegr | Ystyrwyr i Ogledd Iwerddon | Ystyrwyr i'r Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SEGMENT** | Anturwyr | 21% | **26%** | 18% | 27% | 23% |
| | Ceiswyr Cyffro | 19% | **13%** | 19% | 20% | 16% |
| | Archwilwyr | 25% | **26%** | 25% | 26% | 25% |
| | Ymwelwyr | 20% | **18%** | 22% | 14% | 20% |
| | Ymddiddorwyr Diwylliant | 15% | **17%** | 15% | 15% | 17% |
| **RHYW** | Gwryw | 50% | **55%** | 53% | 51% | 49% |
| | Benyw | 50% | **45%** | 47% | 49% | 51% |
| **OEDRAN** | 16-34 | 29% | **20%** | 27% | 26% | 28% |
| | 35-44 | 22% | **21%** | 21% | 22% | 23% |
| | 45-54 | 18% | **24%** | 19% | 22% | 21% |
| | 55-64 | 14% | **16%** | 16% | 15% | 12% |
| | 65+ | 17% | **20%** | 17% | 15% | 17% |
| **PLANT AR YR AELWYD** | Plant | 34% | **36%** | 34% | 34% | 33% |
| | Dim plant | 66% | **64%** | 66% | 66% | 67% |
| | Munster | 27% | **30%** | 29% | 28% | 28% |
| | Gweddill Leinster | 27% | **25%** | 26% | 24% | 27% |
| | Connaught & Ulster | 18% | **19%** | 18% | 19% | 17% |
| | Dulyn | 28% | **26%** | 27% | 29% | 28% |

## Rhesymau dros beidio ag ystyried Cymru

4.12 Nid oedd unrhyw resymau arweiniol llethol dros bobl nad oeddent yn ystyried Cymru. Diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yw'r rheswm a grybwyllir amlaf dros beidio ag ymweld (35% yn nodi hyn), fel y mae ymdeimlad bod 'lleoedd eraill yn y DU yn fwy deniadol' (32%).

4.13 Yn gadarnhaol, ar gyfer tua thraean (35%) o farchnad Iwerddon, mae Cymru ar y rhestr ond maen nhw'n gweld lleoedd eraill yn gyntaf. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig, mae'n bosibl y bydd Cymru'n symud i fyny'r rhestr o leoedd i ymweld â nhw.

4.14 Mae ffactorau eraill yn cynnwys cysylltiadau teithio annigonol o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU (26%), cynnig arbennig neu becyn a gynigir mewn mannau eraill (25%) ac amodau'r tywydd yng Nghymru (24%).

4.15 Mae ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yng Nghymru ar ei isaf ymhlith Ceiswyr Cyffro. Y segment hwn hefyd yw'r mwyaf tebygol o fod wedi'i ddylanwadu gan gynnig arbennig neu becyn rhywle arall yn y DU.

4.16 Ffactorau a oedd yn llai pwysig i deithwyr gwyliau/gwyliau byr Iwerddon nad oeddent yn dewis Cymru oedd ei bod yn rhy brysur/orlawn (2% yn unig), yn rhy bell i deithio (4% yn unig) neu nad oes llety addas ar gael (dim ond 5%).



# 5. Nodweddion tripiau cynllluniedig i Gymru

## Amseriad trip disgwyliedig i Gymru

5.1 O'r rhai o fewn marchnad Iwerddon sy’n ystyried o ddifrif ymweld â Chymru yn ystod y 12 mis nesaf, dim ond 3% oedd eisoes wedi archebu taith ar gyfer 2020. Roedd 1 o bob 4 arall yn cynllunio trip yn 2020 ond nid oeddent wedi archebu eto. Roedd y gweddill naill ai'n cynllunio trip yn 2021 a thu hwnt, neu nid oedd bron hanner yn siŵr. Mae hyn yn amlygu'r angen i Croeso Cymru sicrhau bod Cymru yn parhau i fod ar flaen meddyliau ymhlith marchnad Iwerddon i helpu i drosi'r rhai nad ydynt eto wedi penderfynu ymweld. Bydd effaith yr achosion o COVID-19 ar allu ac awydd marchnad Iwerddon i gymryd gwyliau yn y DU yn ddylanwad allweddol.



5.2 Ar draws y segmentau, Archwiliwyr (60% o'i gymharu â chyfartaledd o 48%) a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (53% o'i gymharu â chyfartaledd o 48%) sydd leiaf sicr ynghylch pryd y byddant yn cynllunio eu trip i Gymru. Ymddiddorwyr Diwylliant ar y llaw arall, yw'r rhai mwyaf tebygol o fod eisoes wedi archebu (6% o'i gymharu â chyfartaledd o 3%) ac Anturiaethwyr sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu mynd ar drip eleni ond nid ydynt eto wedi archebu (41% o'i gymharu â chyfartaledd o 24%), gan awgrymu cyfle i dargedu Ymddiddorwyr Diwylliant ac Anturiaethwyr yn arbennig gyda chynigion arbennig ar gyfer eleni i'w hannog i ymrwymo.



## Cam cynllunio'r trip nesaf i Gymru

5.3 Yn unol â phan ragwelodd ystyrwyr ymweld â Chymru, dim ond lleiafrif bach oedd wedi archebu eu llety (2%). Yn gadarnhaol, dywedodd hanner yr ystyrwyr y byddent yn bendant yn ymweld â Chymru, er nad oeddent wedi archebu eu llety eto. Nid oedd bron i hanner wedi archebu lle ac roeddent yn ystyried lleoedd eraill.

5.4 Ymhlith y segmentau, mae Archwiliwyr a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yn fwy tebygol o fod ar y cam 'heb archebu ac yn ystyried lleoedd eraill'. Mae Anturiaethwyr, Ceiswyr Cyffro ac Ymddiddorwyr Diwylliant yn fwy tebygol o fod heb archebu llety ond byddant yn bendant yn ymweld â Chymru.



## Ble y bwriedir ymweld ag ef yng Nghymru

5.5 Mae ymwelwyr o farchnad Iwerddon yn debygol o fod yn bwriadu rhannu eu hamser yng Nghymru rhwng Gogledd a De'r wlad. Er bod dros hanner (55%) yn bwriadu ymweld â Gogledd Cymru, Caerdydd yw'r gyrchfan unigol y maent yn fwyaf tebygol o ymweld â hi, 55% yn dweud y byddent yn gwneud hynny, ac yna Eryri (40%). Bae Abertawe, Y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Bro Castell-nedd (30%) ac Ynys Môn (26%) oedd y rhai nesaf mwyaf poblogaidd . Efallai fod Ynys Môn a Sir Benfro yn is na'r disgwyl o ystyried eu cysylltiadau teithio uniongyrchol ag Iwerddon.

### Ardaloedd o Gymru y mae 'Ystyrwyr i Gymru' yn ystyried ymweld â nhw o ddifrif (%)



### Ble arall y bwriedir ymweld ag ef yn y DU

5.6 Ar gyfartaledd byddai'r rhai sy'n ystyried ymweld â Chymru yn ymweld â 2 gyrchfan ar eu trip, er mai dim ond hanner (51%) fyddai'n ymweld â rhywle heblaw Cymru. Llundain (23%) a'r Alban (19%) yw'r ardaloedd mwyaf poblogaidd i'w hychwanegu at y rhai sy'n ystyried trip i Gymru o ddifrif.




## Cyfansoddiad parti a ragwelir ar gyfer y trip nesaf i Gymru

5.7 Mae ystyrwyr i Gymru o Iwerddon yn fwyaf tebygol o ymweld gyda'u partner (72%). Mae tua hanner cymaint yn debygol o ymweld gyda'u plant (37%), a bron i 1 o bob 4 (23%) yn debygol o ymweld gyda ffrind/ffrindiau. Mae lleiafrif bach yn bwriadu teithio ar eu pennau eu hunain.

**Cyfansoddiad parti a ragwelir (Y 5 Uchaf)**

**(CG6) (Sylfaen: n=197)**



## Dull teithio a ragwelir i Gymru

5.8 Mae marchnad Iwerddon yn fwyaf tebygol o deithio i Gymru ar y môr gan ddefnyddio eu car eu hunain (48% yn nodi hyn), ac yna mewn awyren, yn hedfan yn uniongyrchol i Gymru (31%). Byddai 16% yn teithio mewn awyren i faes awyr arall yn y DU gyda meysydd awyr Llundain a Bryste y rhai mwyaf poblogaidd.

**Dull teithio a ragwelir i Gymru**




5.9 Mae teithwyr o Iwerddon yn llawer mwy tebygol o hedfan i faes awyr Bryste (22%) na theithwyr o'r farchnad Almaenaidd (8%). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod cyfle i ddenu mwy o deithwyr o Iwerddon i deithio mewn awyren yn uniongyrchol i Gaerdydd.



## Hyd trip a ragwelir i Gymru

5.10 O'r rhai o fewn marchnad Iwerddon sy'n ystyried trip i Gymru, mae'r mwyafrif (61%) yn cynllunio mynd ar drip o 4+ noson. Ar gyfartaledd mae ystyrwyr i Gymru yn rhagweld cymryd trip hyd cyfartalog o 5 noson yng Nghymru. Mae tua phedwar o bob deg yn bwriadu ymweld â Chymru am wyliau byr, sy'n llawer uwch na chyfran y teithwyr o'r Almaen a marchnadoedd rhyngwladol eraill.

**Hyd trip a ragwelir i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru'**

| 39% | 61% | 5 noson |
|---|---|---|
| Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson) | Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson) | Hyd cyfartalog trip arfaethedig i Gymru (nosweithiau) |

## Ffynonellau gwybodaeth disgwyliedig i gynllunio'r trip nesaf i Gymru

5.11 Mae marchnad Iwerddon sy'n rhagweld ymweliad â Chymru yn fwyaf tebygol o gynllunio drwy wefannau ac apiau gyda 76% yn nodi hyn. Mae argymhelliad personol (63%) ac e-bost neu gyfryngau cymdeithasol (43%) hefyd yn bwysig. Erys gwybodaeth brintiedig yn ddylanwad pwysig i tua thraean (34%).

**Ffynonellau gwybodaeth net (%)**
**(CG4) (Sylfaen: n=197)**

| 76% | 63% | 43% | 34% |
|---|---|---|---|
| Gwefannau/apiau | Argymhellion personol | E-bost neu gyfryngau cymdeithasol | Gwybodaeth brintiedig |

5.12 Sgyrsiau gyda ffrindiau a theulu sydd wedi ymweld yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf disgwyliedig ar gyfer trip i Gymru, 45% yn nodi hyn, ac yna peiriant chwilio (39%), safleoedd adolygu teithwyr (36%) a gwefannau byrddau croeso (27%) ac asiantau teithio ar-lein (25%). Llyfrau canllaw teithio/cylchgronau yw'r ffynhonnell wybodaeth brintiedig fwyaf poblogaidd (22%).

**Ffynonellau gwybodaeth disgwyliedig ar gyfer tripiau i Gymru (%)**



## Sianeli archebu disgwyliedig ar gyfer y trip nesaf i Gymru

5.13 Gwefannau teithio yw'r sianel y mae ystyrwyr Cymru yn fwyaf tebygol o archebu llety gyda nhw (50% yn nodi hyn), ac yna 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety' (39%).

5.14 Ymhlith y segmentau, Archwiliwyr sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â siop deithio traddodiadol (23% o'i gymharu â chyfartaledd o 12%) neu siop asiant teithio traddodiadol (21% o'i gymharu â 10% ar gyfartaledd) tra bod Ceiswyr Cyffro (72% o'i gymharu â chyfartaledd o 48%) a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (61% o'i gymharu â 48%) ar gyfartaledd) yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio gwefan teithio.

**Ffynonellau sianeli archebu llety a ragwelir ar gyfer tripiau i Gymru**

**(% rhestredig)**



# 6. Cyswllt gyda Croeso Cymru

## Gohebiaeth ddiweddar a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar

6.1 Heb brocio, tua 1 o bob 4 (26%) o farchnad Iwerddon, a arolygwyd ym mis Chwefror 2020, sy'n cofio gweld hysbysebion teledu am Gymru yn ddiweddar, 1 o bob 5 yn cofio clywed am Gymru mewn rhaglen deledu neu ffilm. Roedd llai o alw i gof am glywed am Gymru mewn erthyglau printiedig (12%), hysbysebu ar-lein (9%) ac ar gyfryngau cymdeithasol (8%).

Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd am Gymru'n ddiweddar



### Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

6.2 Mae 1 o bob 5 o farchnad Iwerddon yn cofio gweld hysbysebion teledu Croeso Cymru yn ddiweddar, pan y'i dangosir iddyn nhw. Mae hon yn lefel debyg o alw i gof â marchnad y DU. Yn nodedig, y segment sydd fwyaf tebygol o weld yr hysbyseb deledu yw 'Ceiswyr Cyffro', y segment sydd leiaf tebygol o fod yn ystyried ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr. Mae lefelau galw i gof tebyg ar y cyfan ar draws y segmentau eraill ac eithrio'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd sydd, yn nodedig, â llai o alw i gof.

6.3 Mae'n werth nodi bod yr ymchwil wedi'i gynnal ar ddechrau'r cylch hysbysebu teledu ym mis Chwefror/Mawrth 2020.

## Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru yn gyffredinol a fesul segment

**20%**

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru

| Anturwyr | Ceiswyr Cyffro | Archwilwyr | Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd | Ymddiddorwyr Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| 19% | 24% | 21% | 14% | 23% |

## Ymgysylltiad â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf

6.4 Mae bron i 1 o bob 4 (22%) o farchnad Iwerddon wedi ymgysylltu â ffynonellau cyfathrebu Croeso Cymru mewn rhyw ffordd yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd 1 o bob 10 (10%) eu bod wedi ymweld â gwefan Croeso Cymru yn ystod y 12 mis blaenorol ac roedd 1 o bob 13 (7%) yn ffrind Facebook Croeso Cymru. Roedd cyfrannau bach yn dod i gysylltiad â Croeso Cymru ar draws sianeli eraill. Mae hyn yn lefel ymgysylltu debyg i farchnad y DU.




6.5 Ymhlith y segmentau, Ceiswyr Cyffro yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi bod ar wefan Croeso Cymru neu wedi ymgysylltu â'r sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Ymddiddorwyr Diwylliant ac Anturwyr yw'r segmentau eraill sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymgysylltu â Croeso Cymru yn bennaf drwy'r wefan. Nid yw 89% o Archwiliwyr ac 88% o'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd wedi cael unrhyw gysylltiad â sianelau Croeso Cymru a hwy yw'r segmentau lleiaf ymgysylltiedig.

**Ymgysylltiad â Croeso Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf ymhlith segmentau**

*(CH3) (Sylfaen: Anturwyr n=124; Ceiswyr Cyffro n=114; Archwiliwyr n=149; Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd n=122; Ymddiddorwyr Diwylliant n=91)*

| | Anturwyr | Ceiswyr Cyffro | Archwilwyr | Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd | Ymddiddorwyr Diwylliant |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi ymweld â gwefan Croeso Cymru | 12% | 13% | 7% | 6% | 15% |
| Wedi derbyn e-gylchlythyrau gan Croeso Cymru | 5% | 6% | 1% | 2% | 10% |
| Yn dilyn Croeso Cymru ar Trydar | 3% | 4% | 1% | 0% | 2% |
| Ffrindiau gyda Croeso Cymru ar Facebook | 9% | 13% | 3% | 2% | 8% |
| Wedi tanysgrifio i wefan Croeso Cymru ar YouTube | 1% | 11% | 2% | 1% | 1% |
| Yn dilyn Croeso Cymru ar Instagram | 3% | 10% | 2% | 2% | 2% |
| Dim un o'r uchod | 75% | 63% | 89% | 88% | 73% |

# 7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau

7.1 Pan gynhaliwyd yr ymchwil ym mis Chwefror 2020, roedd y bwriad i ymweld â'r DU am wyliau neu wyliau byr yn gyson â'r 12 mis blaenorol. Er bod hyn bron yn sicr o fod wedi newid yn dilyn argyfwng y Coronafeirws, mae'n datgelu rhywfaint o sefydlogrwydd mewn agweddau at fynd ar dripiau i'r DU.

7.2 Yn nodedig, bydd yr awydd i fynd ar dripiau domestig o fewn Iwerddon, neu dripiau i dir mawr Ewrop yn cynyddu yn ystod y 12 mis nesaf. Mae hyn yn awgrymu – gyda'r amodau cywir - fod potensial i gynyddu tripiau i'r DU hefyd.

7.3 Mae nifer o rwystrau canfyddedig i ymweld â'r DU am wyliau neu wyliau byr fel gwerth am arian a chost cyfraddau cyfnewid. Mae Brexit yn arbennig o gryf – tua 2 o bob 5 yn ei ddyfynnu. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfleu sicrwydd ynghylch teithio i'r DU pan fydd diwedd y cyfnod pontio yn nesáu ym mis Rhagfyr 2020.

7.4 Mae gan farchnad Iwerddon argraff gadarnhaol net o'r DU – mae 'rhesymau dros ymweld' yn mynegeio'n uwch na 'rhwystrau i ymweld' – dangosydd cadarnhaol ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.

7.5 Mae marchnad Iwerddon yn fwyaf tebygol o fod yn ystyried tripiau i'r DU ar gyfer taith 'treftadaeth' a thrip 'gwyliau dinas', dwy ardal lle mae gan Gymru'r cysylltiadau isaf ym mhob gwlad. Mae eu pwysigrwydd yn awgrymu bod angen eu hyrwyddo'n gryf o fewn cyfathrebiadau Croeso Cymru yn y dyfodol. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at y potensial i hyrwyddo Caerdydd a threfi treftadaeth i farchnad Iwerddon.

7.6 Yn gadarnhaol, mae galw eang am gefn gwlad golygfaol a gwyliau glan môr gan farchnad Iwerddon, y ddau ohonynt yn gryfderau cynnyrch i Gymru. Anturiaethwyr yw'r segment y mae'r agweddau hyn yn apelio ati fwyaf, gan awgrymu cyfle i dargedu'r segment hwn ar gyfer Cymru.

7.7 Un mater allweddol wrth yrru ymweliadau â Chymru yw ymgyfarwyddo â'r hyn sydd gan y wlad i'w gynnig. Yn nodedig, mae marchnad Iwerddon yn llai cyfarwydd â Chymru nag ydyw gydag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae bod yn gyfarwydd â Chymru yn cyd-fynd ag ystyriaeth gymharol isel o ymweliadau, ac mae'n rheswm a roddir yn uniongyrchol dros beidio ag ymweld.

7.8 Dylid cyfuno codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yng Nghymru gyda thynnu sylw at hwylustod mynediad i Gymru, codir ansicrwydd yn y maes hwn hefyd fel rhwystr i ymweliadau.

7.9 Mae'n werth nodi nad yw cynefindra bob amser yn brocsi i'w ystyried ar gyfer ymweld. Mae cynefindra â'r Alban bron cyn ised â Chymru, ond mae'r awydd i ymweld yn sylweddol uwch. Mae'r Alban yn sgorio'n uwch na Chymru ar bron pob math o gysylltiad cyrchfan – yn enwedig y rhai sydd bwysicaf i farchnad Iwerddon – gan dynnu sylw at bwysigrwydd brand cryf a chynnig gwyliau amrywiol. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd marchnata cryf Croeso Cymru.

7.10 Mae angen argyhoeddi ystyrwyr i Gymru o hyd mai Cymru ddylai fod eu dewis cyrchfan yn y dyfodol agos. Nid yw tua hanner y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau wedi archebu lle eto ac maent yn ystyried lleoedd eraill.

7.11 Bydd angen defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i drosi marchnad Iwerddon yn ymwelwyr – mae ffynonellau ar-lein, yn enwedig gwefannau teithio, yn arbennig o bwysig wrth gynllunio, er bod gan brint rôl i'w chwarae o hyd.

# 8. Atodiad

## Methodoleg

8.1 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau drwy fwrdd gwaith neu ddyfais symudol. Defnyddiwyd cyfuniad o baneli, a Dynata oedd prif ddarparwr y panel.

8.2 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng **20fed Chwefror ac 2il Mawrth 2020**, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau ar gyfartaledd.

8.3 Er mwyn sicrhau ansawdd yr ymatebion, rhoddwyd nifer o gamau ar waith yn ystod ac yn dilyn yr arolwg:

(1) Ar ddechrau'r arolwg, rhoddwyd 'cwestiwn baglu' i ymatebwyr, i sgrinio'r rhai a oedd yn darparu ymatebion cadarnhaol at ddiben cymhwyso ar gyfer yr arolwg yn unig. Gofynnodd y cwestiwn i ymatebwyr nodi'r cyfandiroedd yr oeddent wedi ymweld â nhw am wyliau yn 2019. Sgriniwyd allan ymatebwyr a oedd yn ticio pob bocs.

(2) Ymatebion fflat – dilëwyd ymatebwyr a roddodd ymatebion tebyg i'r holl gwestiynau sgorio yn yr arolwg.

(3) Cyflymwyr –dilëwyd ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg mewn amser cyflym afrealistig.

(4) Gwiriwyd tablau data yn erbyn y data crai.

(5) Cynhaliwyd pob cam yn unol ag ISO20252.

8.4 Cwblhawyd 600 o arolygon.

## Diffiniad sampl

8.5 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid bod yn gynrychiolydd cenedlaethol o boblogaeth Gweriniaeth Iwerddon yn ôl oedran, rhyw a rhanbarth.
- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid bod yn debygol iawn/eithaf tebygol o fod yn cymryd gwyliau neu wyliau byr mewn llety y telir amdano yn y DU yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## Meintiau Sylfaen a dibynadwyedd ystadegol

8.6 Cyfeiriwyd at wahanol is-grwpiau drwy gydol yr adroddiad hwn, ac mae'n hanfodol bod y darllenydd yn ymwybodol o'i feintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol y ffigurau a gyflwynwyd. Mewn rhai achosion, mae meintiau sylfaen yn isel, felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r tabl isod yn dangos ymylon gwallau ar lefel hyder o 95% ar gyfer rhai o'r is-grwpiau allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad.

| Maint y sampl neu'r is-grŵp y seilir canlyniad yr arolwg arno | 10% neu 90% ± | 30% neu 70%± | 50%± |
|---|---|---|---|
| **POB YMATEBYDD (600)** | 2.4 | 3.7 | 4.0 |
| **YSTYRWYR I GYMRU (197)** | 4.2 | 6.4 | 7.0 |
| Dulyn (168) | 4.5 | 6.9 | 7.6 |
| Munster (162) | 4.6 | 7.1 | 7.7 |
| Gweddill Leinster (162) | 4.6 | 7.1 | 7.7 |
| Connaught ac Ulster (108) | 5.7 | 8.6 | 9.4 |
| Anturwyr (124) | 5.3 | 8.1 | 8.8 |
| Ceiswyr Cyffro (114) | 5.5 | 8.4 | 9.2 |
| Archwilwyr (149) | 4.8 | 7.4 | 8.0 |
| Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (122) | 5.3 | 8.1 | 8.9 |
| Ymddiddorwyr Diwylliant (91) | 6.2 | 9.4 | 10.3 |

## Cyfyngiadau Methodoleg

8.7 Fel gyda phob arolwg o'r math hwn mae rhai cyfyngiadau gyda methodoleg yr arolwg. Y prif gyfyngiadau yw:

- **Rhagfarn hunan-ddethol:** Mae'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn yn 'hunan-ddethol', sy'n golygu eu bod wedi cyflwyno eu hunain i gwblhau'r ymchwil. Mae hyn yn naturiol yn creu tuedd yn y math o ymatebydd sy'n ateb yr arolwg. Er enghraifft, maent yn tueddu i fod yn unigolion mwy rhagweithiol na'r boblogaeth ar gyfartaledd, ac felly gallant fynegeio'n uwch yn eu tebygolrwydd o ymweld â chyrchfannau'r DU. At hynny, fel pobl sy'n ymateb yn rheolaidd i arolygon o bob math gwahanol, maent yn debygol o fod â barn fwy datblygedig ar amrywiaeth o faterion na'r cyfartaledd.
- **Sampl ar-lein:** Er bod y rhan fwyaf o Brydeinwyr bellach ar-lein, mae 'llythrennedd ar-lein' yn parhau'n is ar gyfer y poblogaethau hŷn, felly mae'n debygol y bydd y duedd hunan-ddethol yn effeithio'n anghymesur ar y grŵp oedran hwn.
- **Ymatebion damcaniaethol:** Bydd rhai ymatebion yn seiliedig ar amcanestyniadau damcaniaethol, a dylid eu hadolygu yng ngoleuni hyn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch archebu a ragwelir ac ymddygiad teithio wrth ymweld â Chymru.
- **Dylanwadau gwrthdrawiadol:** Ar gyfer rhai is-grwpiau, bydd ffactorau y tu hwnt i ddiffiniad hunangynhwysol yr is-grŵp yn dylanwadu ar ymatebion. Er enghraifft, ar gyfer cwestiynau am ymweliadau blaenorol â Chymru, mae 'rhanbarth preswyl'

yn ddylanwad blaenllaw (pellter yn rhwystr allweddol i ymweld). Os yw segment blaenoriaeth yn anghymesur yn byw ymhell o Gymru, bydd eu tebygolrwydd o ymweld yn is oherwydd ble maent yn byw, yn hytrach nag oherwydd eu dewisiadau segment.

8.8 Mae'n bwysig nodi y bydd y cyfyngiadau hyn yn gyson ar draws tonnau'r arolwg, felly caiff unrhyw symudiadau mewn ymatebion eu llywio gan ffactorau dilys, y tu allan i'r fethodoleg.